# DEDDF ARCHWILIO CYHOEDDUS (CYMRU) 2013

---

## EXPLANATORY NOTES

### SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU

***Atodlen 2 – Y Berthynas Rhwng Yr Archwilydd Cyffredinol a Sac***

***Paragraff 1 – Paratoi a chymeradwyo etc***

86. Rhaid i SAC ac ACC ar y cyd baratoi cod ymarfer sy'n ymwneud â'r berthynas rhyngddynt. Wrth wneud hynny, rhaid iddynt adlewyrchu'r egwyddor fod gan ACC ddisgresiwn lwyr yngl#n â'r modd yr arferir swyddogaethau ei swydd o dan adran 8(1) ac 8(2) o'r Ddeddf hon. Rhaid adolygu'r cod yn rheolaidd a'i ddiwygio fel y bo'n briodol. Rhaid i'r cod, ac unrhyw ddiwygiad ohono, gael eu gosod gerbron y Cynulliad a'u cymeradwyo ganddo. Rhaid i SAC ac ACC gydymffurfio â'r cod a threfnu i'w gyhoeddi.